



Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DVLA Abertawe



Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth i'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau (DVLA) Abertawe

Ebrill 2015 - Mawrth 2017

Craig Hughes BSc (Anrh) Cadwraeth Amgylcheddol



Gyda diolch arbennig i Julia Ashford a Nigel Robins

Cynnwys



| | | |
|--------|--|-----------|
| | Crynodeb gweithredol | Tudalen 4 |
| | Cyflwyniad | 5 |
| 1. | Bioamrywiaeth a'i fanteision | 6 |
| 2. | Hanes cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth | 7 |
| 2.1. | Hanes cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth | 7 |
| 2.2. | Beth sydd mewn cynllun gweithredu bioamrywiaeth? | 7 |
| 3. | Y Gyfraith a gofynion a osodwyd gan y DVLA | 8 |
| 4. | Safleoedd; disgrifiad, bioamrywiaeth, mapiau a'r bygythiadau presennol | 9 |
| 4.1. | Disgrifiad | 9 |
| 4.1.1 | Bioamrywiaeth Tŷ Felin | 9 |
| 4.1.2 | Bioamrywiaeth Treforys | 9 |
| 4.1.3 | Arolygon ecolegol yn y dyfodol | 9 |
| 4.2. | Mapiau | 10 |
| 4.3. | Bygythiadau presennol | 11 |
| 4.3.1. | Datblygiad mewnol | 11 |
| 4.3.2. | Datblygiad allanol | 11 |
| 5. | Adolygiad o gynllun bioamrywiaeth cychwynnol y DVLA | 12 |
| 6. | Amcanion | 15 |
| 6.1. | Cynnwys staff | 15 |
| 6.2. | Creu gwaelodlin | 16 |
| 6.3. | Cynnal a gwella | 17 |
| 6.4. | Cael Gwared ar rywogaethau ymledol heb fod yn gynhenid a defnyddio chwynladdwyr/plaladdwyr monitro | 19 |
| 6.5. | Dull holistaidd | 20 |
| 6.6. | Newid hinsawdd a pharatoi datblygiad | 21 |
| | Atodiadau | 22 |

Crynodeb gweithredol



Creodd yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth am y tro cyntaf yn 2013 ac ers hynny gwelwyd gwahaniaeth rhyfeddol yn y fioamrywiaeth ar ei safleoedd. Er mwyn parhau i gynnal a gwella safleoedd yr asiantaeth ac i barhau i gydymffurfio â'r gyfraith a osodir ar asiantaethau'r llywodraeth i ystyried cadwraeth bioamrywiaeth ar eu safleoedd, comisiynwyd ail Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB).

Bydd y Cynllun yn weithredol ar gyfer y cyfnod Ebrill 2015 hyd Fawrth 2017 a bydd yn cynnwys camau a fydd yn rhoi awgrymiadau i'r asiantaeth i gynnal y fioamrywiaeth sydd ganddynt a chamau syml i wella'r fioamrywiaeth ymhellach. Mae'r camau yma yn cynnwys;

- creu gwaelodlin fel bod disgwyl gweld safonau CGB,
- gosod patrwm torri glaswellt caeth ar ragor o safleoedd yr asiantaeth a,
- chreu grŵp bioamrywiaeth.

Yn ogystal â chreu amcanion a chamau gweithredu yn y cynllun hwn, bydd yr awdur, ymhlith pethau eraill, yn adolygu cynllun blaenorol yr asiantaeth, yn cael cip ar hanes y CGB ac yn edrych ar y broses o greu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth a'r gyfraith bioamrywiaeth bresennol. Yn ychwanegol, bydd y cynllun gweithredu hwn yn creu mapiau i arddangos safleoedd a chynefinoedd yr asiantaeth yn ogystal â mapiau i arddangos gwybodaeth fanwl.

Bydd cael fersiwn weledol fanwl o'r fath ac adolygiadau ar yr agweddau sydd tu ôl i greu CGB ac yn cael effaith arnynt yn caniatáu gwell dealltwriaeth a chynllunio.

Bydd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn eto yn canolbwyntio yn unig ar safleoedd yr asiantaeth yn Nhreforys a Thŷ Felin, gan mai'r safleoedd yma sy'n cynnig yr amodau a'r cyfle gorau i ganolbwyntio adnoddau. Yn ychwanegol, bydd y CGB hwn yn rhoi'r un cyngor ar blannu (pa rywogaethau i'w defnyddio a pha rai i'w hosgoi) ag yn y cynllun gweithredu cyntaf ac mae'n ddarn gwerthfawr o wybodaeth. Gellir gweld y rhain yn yr atodiadau.

Heb fioamrywiaeth, bydd integriti'r Ddaear yn dioddef. Mae bwyd, bywyd gwyllt, meddygaeth, cymunedau ac economïau yn dibynnu ar strwythur amrywiol o rywogaethau ac amrywiaeth o ran ecoleg a genynnau. Trwy gynhyrchu'r cynllun gweithredu hwn mae'r asiantaeth yn dangos ymrwymiad i gydymffurfio â'i dyletswyddau cyfreithiol ac wrth gadw a gwella bioamrywiaeth. A hithau â rhan ganolog yn ffabrig cymdeithasol Abertawe a de orllewin Cymru, ac fel asiantaeth o'r llywodraeth, mae gan y DVLA gyfle i weithredu fel arweinydd ac enghraifft dda mewn cadwraeth amgylcheddol.

Cyflwyniad



Fel asiantaeth i'r llywodraeth, mae'n ofyn cyfreithiol i'r DVLA ystyried cadwraeth bioamrywiaeth ar ei safle/safleoedd. A hithau â rhan ganolog yn ffabrig cymdeithasol Abertawe a de orllewin Cymru, mae gan y DVLA gyfle i weithredu fel arweinydd ac enghraifft dda mewn cadwraeth amgylcheddol. Daeth y cred hyn oherwydd y nifer o bobl y mae'r DVLA yn eu cyflogi ac oherwydd bod ei safleoedd mewn ardaloedd lle mae pob cyfle i gymudwyr, cwsmeriaid a phreswylwyr sylwi ar y fioamrywiaeth sy'n bresennol a'r gwaith cadwriaethol sydd yn cael ei wneud.

Er mwyn helpu i gydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol a osodir ar yr asiantaeth, comisiynwyd CGB. Roedd y DVLA wedi cynhyrchu a gweithredu ei CGB cyntaf yn 2013, sydd, ymhlith pethau eraill, wedi cynnig technegau rheoli cadwraeth i'r asiantaeth, data gwerthfawr i ddynodi'r fioamrywiaeth sy'n bresennol a gweithredu fel blwch offer o ran cyfarwyddyd wrth ddewis pa blanhigion i'w defnyddio a pheidio â'u defnyddio. Y bwriad gwreiddiol oedd adolygu'r cynllun gweithredu a'i ddiweddarau yn 2014; ond, dim ond yn awr y bu'n bosibl gwneud hynny. Felly, yn y cynllun gweithredu hwn cynhwysir adolygiad o gynllun gweithredu blaenorol yr asiantaeth. Y gobaith yw bod gwelliant cyffredinol mewn bioamrywiaeth wedi digwydd ers ei greu; bod o leiaf rai o'r egwyddorion wedi cael eu gweithredu a bod gwelliant wedi digwydd o ran rheoli cadwraeth h.y. patrymau torri glaswellt.

Mae'r ffaith bod ail gynllun gweithredu wedi cael ei gomisiynu yn dangos ymrwymiad yr asiantaeth i gydymffurfio â'i dyletswyddau cyfreithiol ac wrth gadw a gwella'r fioamrywiaeth ar ei safleoedd, ac felly, bydd y cynllun gweithredu hwn yn amlinellu ei hamcanion gyda champau gweithredu dichonol. Dylid nodi hefyd y bydd y cynllun hwn yn ceisio sefydlu gwaelodlin i'r fioamrywiaeth ar safleoedd yr asiantaeth. Mae hyn i sicrhau bod gan gynlluniau gweithredu yn y dyfodol y wybodaeth i lwyddo. Er mwyn sefydlu gwaelodlin, bydd arolygon ecolegol yn cael eu cynnal. Yn ychwanegol, oherwydd y cyfyngiadau ar safle'r asiantaeth ym Mro Abertawe, bydd y cynllun hwn, yn yr un modd â'r cyntaf, yn canolbwyntio ar safleoedd Treforys a Tŷ Felin yn unig.



1. Bioamrywiaeth a'i fanteision



Mae bioamrywiaeth, sy'n ffurf fer am amrywiaeth biolegol, yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio holl amrywiaeth bywyd ar y Ddaear, boed yn amrywiaeth o ran rhywogaethau, ecoleg neu enynnol (DEFRA, 2007). O'r gell leiaf i'r dyn cryfaf, ac o'r pabi mwyaf llachar i'r goedwig fwyaf trwchus, mae'r cyfan yn cael ei gynnwys yn y term bioamrywiaeth.

I lawer, mae bioamrywiaeth yn derm sy'n cael ei gysylltu yn gyson ag ardaloedd fel y goedwigoedd glaw. Wedi'r cyfan, mae goedwigoedd glaw yn gorchuddio llai na 2% o arwyneb y Ddaear, ond yn gartref i tua 50% o'r rhywogaethau (The Nature Conservancy, 2015). Ond, hyd yn oed ym Mhrydain yn ystod yr unfed ganrif ar hugain, archwiliwch ein cynefinoedd amrywiol, gan gynnwys strydoedd tywyllaf ein dinasoedd, ac fe welwch chi fioamrywiaeth.

Mae llawer o fanteision i annog a chynnal bioamrywiaeth. Er enghraifft, heb fioamrywiaeth ni fyddai llawer o'r triniaethau sydd gennym ar gyfer afiechydon wedi cael eu darganfod. Mae ymchwil i fioleg a geneteg rhywogaethau amrywiol o anifeiliaid a phlanhigion y Ddaear wedi cynnig dull i ddynolryw ymladd yn erbyn yr afiechydon gwaethaf. Felly, petai un rhywogaeth yn diflannu, mae'n bosib bydd y cyfle i wella mwy o afiechydon yn diflannu am byth (National Wildlife Federation). Yn ychwanegol, mae bioamrywiaeth yn chwarae rhan bwysig wrth gynnig gwasanaethau ecolegol sydd yn ein galluogi i fyw bywyd ar y Ddaear. Mae'r planhigion symlaf yn glanhau ein dŵr; mae coed yn rhoi ocsigen, ac mae'r golygfeydd naturiol sy'n cael eu ffurfio gan gynefinoedd amrywiol yn helpu i gynnal economïau.

Yn y pen draw, bydd sicrhau ein bod fel unigolion yn cadw ein heffaith ar fioamrywiaeth cyn lleied â phosibl yn sicrhau Ddaear amrywiol yr ydym oll yn ei gwerthfawrogi mewn un ffurf neu'r llall.



2. Hanes cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth



2.1. Hanes cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth

Yn Nghonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig 1992 ar Amrywiaeth Biolegol yn Rio de Janeiro, llofnododd dros 150 o benaethiaid llywodraethau yn cynnig y dylid atal y colli byd-eang ar rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion yn ogystal ag adnoddau genetig. Felly, rhoddwyd pwysau ar lywodraethau i greu peirianwaith i weithredu cyfrifoldeb pob gwlad i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn eu gwledydd. Erbyn 1994, roedd y llywodraeth Deyrnas Unedig yn cyntaf yn y byd i gynhyrchu CGB.

Yn dilyn datganoli yn 1998, datblygodd pedair gwlad y Deyrnas Unedig, gyda'r cynllun gweithredu ar gyfer y Deyrnas Unedig mewn cof, eu strategaethau eu hunain i gadw bioamrywiaeth. Ond, yn 2007, diweddarwyd hyn gan i'r pedair gwlad fabwysiadu ac ymrwymo i fframwaith lle byddai gweithio gyda'i gilydd, yn hytrach nag yn unigol, yn fuddiol i wynebu'r sialensiau yr oedd y pedair gweinyddiaeth yn eu hwynebu o ran cadw bioamrywiaeth. Wedi'r cyfan, nid oes gan fioamrywiaeth ffiniau. Gelwir y fframwaith hwn yn 'Cadwraeth Bioamrywiaeth – Dull y Deyrnas Unedig.'

Oherwydd y methiant wrth geisio sicrhau atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2010, fel y cytunodd yr arweinyddion byd yng Nghynhadledd y Ddaear 2002 yn Johannesburg, roedd angen newid yn y dull o gadw bioamrywiaeth. O ganlyniad i gynadleddau eraill a Strategaeth Bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd (EUBS), cynhyrchodd llywodraeth y Deyrnas Unedig 'Fframwaith Bioamrywiaeth Ôl-2010 y Deyrnas Unedig' ac fe'i bwriadwyd i ddynodi'r gweithgareddau sy'n angenrheidiol i gryfhau a chyd-fynd â strategaethau gwladol i gyflawni

'Targedau Bioamrywiaeth Aichi'. Mae dau o'r targedau yma yn cynnwys (erbyn 2020) sicrhau bod pobl yn gwybod am werth bioamrywiaeth a chynaliadwyedd, a gwyrddroi'r gostyngiad yn niferoedd y rywogaethau sydd dan fygythiad.

Yn nes adref, roedd y CGB cyntaf yn y DVLA ar gyfer y cyfnod Ionawr 2013 i Fawrth 2014, ac fe'i sefydlwyd i nodi fframwaith ar gyfer diogelu, cadwraeth a gwella bywyd gwyllt o fewn ffiniau ystad y DVLA. Crëwyd y cynllun hwn hefyd gan fod yn rhaid i'r DVLA gydymffurfio â'i dyletswyddau cyfreithiol a osodwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Dewiswyd camau gweithredu i sicrhau na fyddai'r asiantaeth yn gweld colli cynefin, eu bod yn deall ac yn gwella niferoedd ac amrywiaeth y blodau a'r anifeiliaid cynhenid ar y safle, a chynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth am fioamrywiaeth ymhlith y staff.

2.2. Beth sydd mewn cynllun gweithredu bioamrywiaeth?

Mae cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth yn dod yn fwy poblogaidd gyda llawer o gwmnïau, prifysgolion, awdurdodau cyhoeddus ac asiantaethau'r llywodraeth yn eu cynhyrchu. Efallai bod llawer o resymau pam bod un wedi ei gynhyrchu, ond mae'n debyg ei fod oherwydd bod y corff yn teimlo gorfodaeth foisol yn y gymdeithas sydd ohoni sy'n fwy amgylcheddol effro neu bod ganddynt ddyletswydd cyfreithiol i sefydlu a gweithredu cynllun ar gyfer eu safle(oedd) neu ardal(oedd). Gall y cynlluniau gweithredu yma hefyd ddod dan enwau gwahanol, ond tebyg, fel 'Cynllun Gweithredu Natur' a 'Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol'.

3. Y gyfraith a'r gofynion



Fel asiantaeth i'r llywodraeth, mae gan y DVLA ddyletswydd gyfreithiol i ystyried cadwraeth bioamrywiaeth dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006), a rhaid iddi yn benodol roi ystyriaeth i Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol o 1992. Yn benodol, mae Deddf yr Amgylchedd (a40, 2006) yn datgan:

a) 'Mae cadwraeth bioamrywiaeth yn cynnwys, yng nghyswllt organeb fyw neu fath o gynefin, adfer neu wella poblogaeth neu gynefin'

Yn yr un modd, wedi ei gyhoeddi yn 1994, y Deyrnas Unedig oedd y wlad gyntaf i gyhoeddi CGB ar gyfer yr wlad gyfan. Deilliai'r cynllun hwn o Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol (1992) ac mae'n datgan ei fod yn bwriadu:

b) 'Cadw a gwella amrywiaeth biolegol yn y Deyrnas Unedig a chyfrannu at gadwraeth bioamrywiaeth byd-eang trwy bob peirianwaith addas'

O ran y gofyn i'r asiantaeth roi ystyriaeth i Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol

(1992), roedd y cytundeb gan yr 150 o wladwriaethau a ddaeth i'r confensiwn yn cytuno, ymhlith pethau eraill, y bydd pob parti i'r cytundeb yn:

c) 'Atal cyflwyno, yn rheoli neu yn gwaredu y rhywogaethau estron hynny sy'n bygwth ecosystemau, cynefinoedd neu rywogaethau...'

d) 'Hyrwyddo ac annog ymchwil sy'n cyfrannu at gadwraeth a defnydd cynaliadwy o amrywiaeth biolegol... ' a,

e) 'Hybu ac annog dealltwriaeth o bwysigrwydd cadwraeth amrywiaeth biolegol, a'r camau sy'n ofynnol i'w gyflawni...'

Yn ychwanegol, rhaid i'r DVLA, dan yr Ymrwymadau Gwneud y Llywodraeth yn Fwy Gwyrdd (GGC) fod yn agored a thryloyw am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol, addasu i newid hinsawdd a chaffael cynnyrch cynaliadwy ac effeithlon. Wrth ychwanegu mwy o fanylion, mae'r GGC yn cynnwys yr elfen bod raid i'r DVLA, fel asiantaeth i'r llywodraeth, ddangos pa gamau sy'n cael eu cymryd i:

f) '...Addasu'r stad i hinsawdd sy'n newid...'

O ganlyniad i'r ddeddfwriaeth dros y 25 mlynedd diwethaf, bydd y cynllun gweithredu hwn yn ystyried ac yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i'r DVLA ymrwymo iddynt i gydymffurfio â'r gyfraith.

4. Safleoedd; disgrifiad, bioamrywiaeth, mapiau a'r bygythiadau presennol

4.1. Disgrifiad

Mac gan y DVLA dri safle yn Abertawe, de Cymru - Treforys, Bro Abertawe a Tŷ Felin. Felly, mae'r cyfan mewn ardaloedd gwahanol o Abertawe sydd wedi cadw gwahanol fathau o gynefin. Mae gan y safleoedd i gyd hanes gwahanol o ran natur a diwydiant, dibenion gwahanol ac maent yn gwahaniaethu o ran maint a'r nifer o weithwyr sydd yno. Ond, oherwydd ei faint a natur yr ardal adeiledig ym Mro Abertawe, nid yw'n dichonol i sefydlu safle bioamrywiaeth yno. Felly, bydd yn cynllun hwn yn canolbwyntio yn unig ar safleoedd yr Asiantaeth yn Nhreforys a Thŷ Felin.

4.1.1 Bioamrywiaeth Tŷ Felin

Er i waith goleuo byr gael ei wneud ar safle Tŷ Felin yn 2013, pan welwyd nifer fechan o broga a madfall, ni chynhaliwyd arolwg ecolegol sylfaenol fwy trylwyr ar Tŷ Felin tan mis Mawrth 2015. Yn ystod arolwg 2015, gosodwyd trapiau Longworth a camera a chynhaliwyd arolwg goleuo dros dair noson. Yn ystod y cyfnod hwn, gosodwyd deg ar hugain o drapiau Longworth a daliwyd tair llygoden y coed (*Apodemus sylvaticus*). Cawsant eu gollwng wedyn yn ddianaf. Yn ychwanegol, gwelwyd y fadfall ddŵr gyffredin (*Triturus vulgaris*) a'r broga (*Rana temporaria*) dros 50 o weithiau yr un yn ystod y cyfnod hwn. Mae tystiolaeth hefyd bod llwynogod (*Vulpes vulpes*) yn ymweld â'r safle efallai gan fod mynedfeydd bychan o dan rai ardaloedd o'r ffens ddiogelwch.

4.1.2 Bioamrywiaeth Treforys

Cynhaliwyd astudiaeth ecolegol fanwl yn ystod 2013 gan Nigel Robins ar Faes Parcio Fferm Clâs ar safle'r asiantaeth yn Nhreforys. Gellir gweld canlyniadau'r arolwg hwn yma: Clâs Farm SMS 2013 small.pdf. Hyd yn hyn ni chynhaliwyd unrhyw arolygon ar ôl hynny. Fe welwyd llwynogod (*Vulpes vulpes*) a draenogod (*Erinaceus europaeus*) ar y safle hwn hefyd.

4.1.3 Arolygon ecolegol yn y dyfodol

Ar hyn o bryd mae cynlluniau i gynnal arolwg ecolegol trylwyr yn ystod 2015. Er mwyn cael golwg fanwl ar fioamrywiaeth y cyfan o safleoedd yr asiantaeth yn Nhŷ Felin a Threforys, bydd yr arolwg hwn yn cynnwys rhagor o drapiau Longworth, trapiau camera a thrawsluniau.

4.2. Mapiau

Yn y mapiau isod, byddwch yn gweld darlun o'r ddau safle a'u nodweddion. Bydd disgrifiad cod lliw ychwanegol o'r dosbarthiadau cynefin ar y ddau safle yn yr atodiadau (Delweddau map diolch i Google Earth).

Map ddim ar gael
ar hyn o bryd



Map 1 – Tŷ Felin

Map 2 – Treforys

4.3. Bygythiadau presennol



4.3.1. Datblygu mewnol

Mae safle'r DVLA yn Nhreforys yn un mawr, lle mae'r mwyafrif o'u 5600 o weithwyr yn gweithio. Gan mai'r safle hwn hefyd yw'r man lle bydd nifer fawr o gwsmeriaid yn galw a llawer o gontractwyr, yn aml bydd DVLA Treforys yn gweld problemau o ran parcio. Mae'r cynllun parcio a reidio o Felindre wedi helpu i liniaru'r broblem parcio ar y safle, ond, gan fod Dinas a Sir Abertawe yn edrych ar ddatblygu'r ardal benodol honno yn eu Cynllun Datblygu Lleol, efallai y bydd angen i'r DVLA greu meysydd parcio ychwanegol ar y safle a hynny ar draul yr amgylchedd.

Gyda gweithlu llai, yn gweithio ar batrwm shifft, yn anaml iawn y bydd Tŷ Felin yn profi unrhyw broblemau o ran parcio ar y safle, felly nid yw hynny'n cael ei drin fel bygythiad yno. Ond, mae bygythiad bod y pwll ac ardal y pwll yn cael eu bygwth gan y gormodedd o lafrwyn ac eithin Ewropeaidd (*Ulex europaeus*).

4.3.2. 4.3.2. Datblygiadau allanol

Fel y soniwyd yn barod, mae Dinas a Sir Abertawe ar hyn o bryd yn mynd trwy broses Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n bosib na fydd hyn yn creu bygythiad uniongyrchol i amgylchedd mewnol safleoedd y DVLA, ond gall yr amgylchedd newid petai'r cyngor yn datblygu tir yn agos at y DVLA. Er enghraifft, mae'r cyngor wedi dynodi'r tir ger Ffordd Clâsmont (y ffordd i'r gogledd o DVLA Treforys), fel ardal ar gyfer tai. Gan y byddai'r coridor gwyrdd i rywogaethau sy'n ymweld â thir yr asiantaeth i hela/byw/archwilio yn cael ei gollu; ac oherwydd y byddai llai o blanhigion ar y safle hwnnw, fydd na effaith ar y nifer a'r amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion ar safle'r DVLA, mae posibilrwydd y bydd gostyngiad yn y fioamrywiaeth yn yr asiantaeth. Felly, mae'n bwysig i'r DVLA baratoi ar gyfer posibiliadau o'r fath.

5. Adolygiad o gynllun bioamrywiaeth cychwynnol y DVLA



Ni fydd yr adolygiad canlynol o'r cynllun gwreiddiol yn ymdrin â'r cynllun ei hun, ond yn hytrach y camau a gymerwyd i weithredu yn unol â'r cynllun. I wneud hyn, bydd pob egwyddor yn y cynllun gwreiddiol yn bennawd a bydd unrhyw gamau a gymerwyd yn cael eu nodi o danynt.

Cyflwynwyd y CGB cyntaf yn Ionawr 2013 ac roedd iddo naw amcan yn amrywio o 'Dim Colliad (Net) Cynefin' i 'Gyfraniad Staff'. Fel cynllun gweithredu cychwynnol, fe'i cynlluniwyd gydag amcanion a allai ddwyn canlyniadau cyflym a rhwydd ac roedd wedi cael ei gynllunio i gael ei adolygu ar ôl 12 mis. Gydag arolygydd ecolegol profiadol a gwybodus yn awdur, roedd rhestrau manwl a llawn gwybodaeth o'r rhywogaethau o blanhigion oedd orau i weld cynnydd mewn bioamrywiaeth yn y cynllun hwn.

i. Dim colli cynefin net

Ni welwyd unrhyw ddatblygiadau ar y safle ers cyflwyno'r cynllun cyntaf felly ni chofnodwyd unrhyw golled cynefin net. Ond fe welwyd newid yng nghynnwys y cynefin gyda rhai ardaloedd yn cael ei adael i tyfu heb gael eu torri.

ii. Defnyddio rhywogaethau cynhenid

Cyflwynwyd rhestr o rywogaethau cynhenid ac mae rhaid i holl blannu newydd/amnewidiad cydymffurfio â'r rhestr hon.

iii. Cysylltiadau naturiol addas yn lleol

Dim gweithredu.

iv. Dyluniad aml-swyddogaethol

Cyflwynwyd deg o flychau nythu yn Ebrill 2014 mewn lleoliadau amrywiol ar draws safle Treforys. Yn ychwanegol cyflwynwyd cychod gwenyn ar safle Tŷ Felin yn ystod 2013 er mwyn i'r gwenyn fedru manteisio ar y cynefin 'mwy gwyllt' ar y safle penodol hwnnw.

v. Cysylltiadau

Mae'r patrymau torri gwair wedi cael eu haddasu mewn rhai mannau - welwn well cysylltiadau, cynnydd ym maint y cynefin a gwelliant cyffredinol o ran rheoli tir ar gyfer y cynnydd mewn bioamrywiaeth. Yn benodol, mae hyn wedi gweithio yn dda ym Maes Parcio Fferm Clâs ac ar gyrion a hyd y pwll yn Nhŷ Felin.

vi. Maint y clytiau ac effaith ar ymylon

Yn yr un modd â phwynt v, 'Cysylltiadau' mae'r newid mewn patrymau torri gwair wedi rhoi cyfle i faint y clytiau ac effaith ymylon rhannol gynyddu mewn rhai mannau, yn benodol Maes Parcio Fferm Clâs a phwll Tŷ Felin.

vii. Graddfeydd yn y cynefinoedd

Mae'r newid mewn patrymau torri gwair wedi rhoi cyfle i rywfaint o raddfeydd yn y cynefinoedd mewn rhai mannau, yn benodol Maes Parcio Fferm Clâs a phwll Tŷ Felin.

viii. Strwythur a lleoliad cynefinoedd

Mae rhywfaint o doriadau o dorri gwair, coed a weddill o raean wedi cael eu gadael er budd bywyd gwyllt ym Maes Parcio Fferm Clâs.




ix. Cynnwys staff

Ychwanegwyd adran fioamrywiaeth at dudalen cynaliadwyedd safle mewnwyd y DVLA. Mae'n rhoi gwybodaeth am y cynllun gweithredu cychwynnol, darn ar y strategaeth 'Pencampwyr Gwyrdd' – lle byddai unigolion yn cael eu dewis i fod yn ganolbwynt ar gyfer materion amgylcheddol yn y gwaith; newid hinsawdd a 'Blog Gwyrdd' – blog ar fod yn fwy amgylcheddol gyfeillgar.

Fel y gwelir, roedd y camau a gymerwyd gan yr asiantaeth i gydymffurfio â'r cynllun gweithredu gwreiddiol yn fychan iawn, ond fe wnaethant gyflawni rhai effeithiau dymunol. Mae'r newid yn y patrwm torri gwair mewn rhai mannau wedi gadael i'r cynefinoedd dyfu yn naturiol a mynd i had heb ymyrraeth gan y staff a'r cyhoedd, a thrwy hynny ganiatáu i fioamrywiaeth gynyddu a ffynnu. Mae hyn yn arbennig o wir yn Nhŷ Felin. Ond, gallai rhai ardaloedd fod wedi cael mwy o sylw. Er enghraifft, roedd y toriadau yn cael eu gadael heb lawer o ystyriaeth am ei strwythur. Roedd hyn yn gamgymeriad anffodus gan y byddai gosod y toriadau yma yn ofalus neu ychwanegu llochesi wedi cael effaith llawer mwy ar gynyddu bioamrywiaeth, gan y gall y dulliau yma ddenu nifer fawr o rywogaethau.

Yn ychwanegol, gallai cyfraniad y staff fod wedi cael mwy o sylw. Er enghraifft, cafodd yr 'Blog Gwyrdd' ei diweddarwyd yn ddiwethaf yn Chwefror 2014, ac ni ddaeth dim o'r strategaeth 'Pencampwyr Gwyrdd'.

Ond, roedd cyflwyno'r ddau gwch gwenyn yn Nhŷ Felin yn llwyddiant. Wnaeth cyfraniad dau aelod o staff i gynnal y cychod gwenyn helpu i gynyddu cydarwaith gyda staff ynglyn fioamrywiaeth. Yn ychwanegol, roedd mentro a chynnwys y rhai gyda chymwysterau perthnasol i lunio'r cynllun gweithredu hwn hefyd yn gosod enghraifft dda i adrannau eraill i wneud yr un modd. Felly, bydd y cynllun gweithredu hwn, ymhlith pethau eraill, yn edrych ar ehangu trefn dorri gwair gaeth i ardaloedd eraill, ac yn edrych ar gynyddu cyfraniad y staff.



6. Amcanion



Yn yr adran hon bydd amcanion y CGB hwn yn cael eu hamlinellu gyda rhesymeg, unrhyw wybodaeth berthnasol a'r camau angenrheidiol i gyflawni'r amcan. Dylai'r holl amcanion, oni nodir yn wahanol, gael eu dechrau, os nad eu cwblhau erbyn y cynllun nesaf yn 2017. Yn ychwanegol, gweler yr atodiadau am fapiau manwl, amserlen a gwybodaeth am y lleoliad a'r gofynion cyfreithiol.

6.1. Cynnwys staff

a) Rhesymeg

Gall gweld y rhai sy'n gyfrifol am faterion amgylcheddol yn cysylltu gyda staff yn yr asiantaeth helpu cydweithio mewn reoli adnoddau yn y tymor hir a hwyluso cydweithredu a gweithio unol. Felly, er mwyn sicrhau bod staff a'r rhai sydd â budd yn yr asiantaeth yn cydweithio, mewn un ffordd neu'r llall, bydd y DVLA yn gweithredu i warantu bod ymddiriedaeth; sgysiau, rheolau a chysylltiadau yn dryloyw ac ar gael i bawb.

b) Gweithredu

- Grŵp Bioamrywiaeth/Amgylcheddol

Bydd grŵp sy'n canolbwyntio ar faterion bioamrywiaeth nid yn unig yn helpu i godi ymwybyddiaeth o waith/problemau bioamrywiaeth yr asiantaeth, ond bydd hefyd yn llwyfan i rannu gwybodaeth, cronni gwybodaeth a sgiliau, fod o natur addysgiadol/profiad gwaith a chasglu unigolion sy'n barod i wirfoddoli ar gyfer gweithgareddau, fel clirio pyllau, cynnal a chadw cychod gwenyn ac arolygon.

- Blog Gwyrdd

Y tro diwethaf i'r 'Blog Gwyrdd' ar fewnrwyd yr asiantaeth gael ei ddiweddarau oedd Chwefror 2014. Bydd cael awdur penodol i'r blog gydag awduron gwadd yn annog y staff i ddangos diddordeb mewn bioamrywiaeth a'r amgylchedd. Yn y man lleiaf, mae ganddo'r potensial i gynyddu gwybodaeth yn y meysydd hyn, gadael i staff holi cwestiynau/gwneud awgrymiadau a chefnogi staff a hoffai weld newid trwy chwarae eu rhan mewn cynnal asiantaeth a/neu ffordd o fyw fio-amrywiol.

6.2. Creu gwaelodlin

a) Rhesymeg

Heb waelodlin mae'n anodd mesur eich gwaith yn ceisio cyflawni eich nod. Nid yn unig hynny, gall fod yn gostus, gall gymeryd amser ac mae'n creu problemau petai rhywun am wneud addasiadau ond nad oedd ganddo waelodlin cychwynnol. Felly, wrth greu gwaelodlin ecolegol lawn gwybodaeth a manwl, bydd gan yr asiantaeth y gallu i fonitro perfformiad y prosiect, monitro bioamrywiaeth ac o bosibl helpu i leihau gwariant ar reoli amgylcheddol.

b) Gweithredu

- Arolwg Ecolegol

Er i arolwg ecolegol gael ei gyflawni ar Faes Parcio Fferm Clâs yn 2013, bydd arolygon eraill ar draws y safle ac yn Nhŷ Felin yn cael eu cynnal. Felly, gyda chymorth gan arolygwr ecolegol profiadol, bydd arolwg ecolegol yn cael ei chynnal. Bydd hyn yn cychwyn o ddechrau Mawrth 2015 a bydd wedi ei gwblhau yn llawn erbyn diwedd Medi 2015. Dylid parhau i gynnal astudiaethau eraill yn flynyddol.

- Monitro

Mae'n bwysig ystyried y gofynion cyfreithiol sy'n cael eu gosod ar yr asiantaeth parthed yr amgylchedd. Wrth wneud hynny, bydd y DVLA yn lleihau unrhyw broblemau a all godi yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio a byddant yn gallu dod yn enghraifft o arfer da. Felly, yn unol ag amcan 6.2, mae angen gwaelodlin a monitro blynyddol i asesu cyflwr bioamrywiaeth ar safleoedd yr asiantaeth.

Yn ychwanegol, yn unol â'r cynllun gweithredu cyntaf a gyhoeddwyd yn 2013 a'r ddeddfwriaeth a ddisgrifir ym mhwyntiau 3a a 3b o'r cynllun gweithredu hwn, bydd y safiad 'dim colliad (net) cynefint' yn parhau.

6.3. Cynnal a gwella

a) Rhesymeg

Mae'r gofynion cyfreithiol a osodwyd ar y DVLA yn mynegi y dylai'r asiantaeth chwarae ei rhan wrth gadw, gwella ac adfer poblogaeth o rywogaeth a chynefin(oedd). Yn ychwanegol, o ystyried y gofynion a osodwyd ar yr asiantaeth mewn dogfennau cyfreithiol eraill, nodir ei bod yn ofynnol i'r asiantaeth helpu i gael gwared ar rywogaethau ymledol nad ydynt yn gynhenid, hyrwyddo ymchwil, hyrwyddo dealltwriaeth ac addasu i hinsawdd sy'n newid.

Ond, mae'n ffodus y gellir cyflawni rhan o'r gofynion hyn yn gymharol rwydd. Mae'r drefn dorri gwair bresennol, sy'n deillio o'r cynllun cyntaf, wedi gweld canlyniadau rhyfeddol a dylid ei pharhau a'i hailadrodd mewn ardaloedd eraill.

Yn ychwanegol, nid yw mwyafrif safleoedd yr asiantaeth yn hygyrch i'r cyhoedd, ac felly maent wedi eu ffensio. Mae'r ffensys yma yn cynnig llwybr i mewn ac allan i blanhigion ac anifeiliaid, ond maent yn cadw'r cyhoedd a thraffig cyffredinol allan. Felly, mae safleoedd y DVLA fel hafan i fioamrywiaeth, gan eu bod yn cael eu diogelu oddi wrth ymyrraeth.

Gan fod hwn yn ail gynllun gweithredu, mae'r asiantaeth wedi dangos ymrwymiad i ddynodi a sefydlu cynllun gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymchwil ar ei safle(oedd) yn ogystal ag ymdrin ag unrhyw faterion amgylcheddol ar ei safle(oedd) a dynodi camau i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol.



b) Gweithredu

- Tŷ Felin – Hibernacula , cynnal a chadw pwll, trefn dorri gwair

Un ardal fydd angen sylw arbennig fydd y pwll a'r tir gerllaw iddo ar safle Tŷ Felin. Mae'r darn bychan hwn o dir yn cynnwys amrywiaeth mawr o ran bioamrywiaeth mewn ardal sydd wedi ei datblygu'n helaeth.

Bydd dulliau syml fel monitro, clirio'r pwll, parhau'r patrwm torri gwair presennol a chreu nifer fechan o hibernacula/refugia yn denu mwy o rywogaethau i'r safle, a thrwy hynny wella statws yr asiantaeth o ran bioamrywiaeth. Yn ychwanegol, bydd y cychod gwenyn yn parhau i fod o fudd i'r safle.

- Treforys – Hibernacula, rhanwyr graean, patrwm torri gwair

Ar safle'r asiantaeth yn Nhreforys, mae Maes Parcio Fferm Clâs yn edrych yn fwy bio-amrywiol ers i'r cynllun gweithredu blaenorol gael ei weithredu. Un cam y bydd y DVLA yn ei ail asesu yw'r dulliau wrth adael pentyrrau o bren a graean ar ymylon y ffordd, gan fod y dulliau presennol yn rhy syml ac mewn manau anaddas.

Yn ychwanegol, gyda'r gostyngiad yn y niferoedd cyffredinol ar draws y Deyrnas Unedig, bydd yr asiantaeth yn gwerthuso cynnig 'cartrefi draenogod' i ddraenogod i helpu i wydroi'r dirywiad y rhywogaeth.

Yn y Maes Parcio Rhannu Ceir, dylid cael gwared ar y rhanwyr llawn graean gan ychwanegu llwyni cynhenid fel y nodir yn atodiadau 6 a 7. Bydd y dull hwn yn cynyddu bioamrywiaeth gan y bydd yn cynnig cartref a ffynhonnell fwyd i bryfed ac adar yn arbennig.

Bu'r drefn o dorri gwair yn llwyddiannus mewn rhai ardaloedd a bydd yr asiantaeth yn archwilio sut y gall ehangu'r drefn hon i fannau eraill. Enghraifft o hyn fyddai ar y tir ar derfyn deheuol Maes Parcio Fferm Clâs ac ar dir ar derfyn gogledd-ddwyreiniol Maes Parcio Rhannu Ceir. Bydd hyn yn cynnig cynefin ychwanegol i blanhigion a blodau i'w ddefnyddio at eu defnydd eu hunain.

Dangosodd astudiaethau bod amrywio patrymau torri gwair mewn gwirionedd yn cynyddu rhywogaethau fel pili-palaod a chwilod daear (Cizek et al. 2011).

6.4. Cael gwared ar rywogaethau ymledol heb fod yn gynhenid a defnyddio chwynladdwyr/plaladdwyr

a) Rhesymeg

Rhywogaeth ymledol nad yw'n gynhenid yw unrhyw anifail neu blanhigyn nad yw'n gynhenid sydd â'r gallu i ymledu (GB Non-native species secretariat, 2015). Mewn nifer o achosion, mae rhywogaethau ymledol nad ydynt yn gynhenid yn niweidiol i'r amgylchedd ac i gymdeithas.

Petai'r DVLA yn gweld problem gyda rhywogaeth ymledol nad yw'n gynhenid, mae'n fwy na thebyg mai problem gyda llysiâu'r dail (*Fallopia japonica*) fydd hynny. Mae'r rhywogaeth ymledol nad yw'n gynhenid hon yn adnabyddus am y modd mae wedi ymsefydlu yn Abertawe, ac amcangyfrifir yno y byddai'n cymryd tua 50 mlynedd i gael gwared arno o'r sir (Cyngor Sir Dyfnaint).

Mae tystiolaeth ar Faes Parcio Fferm Clâs, ger y ffens ddwyreiniol bod llysiâu'r dail yn bresennol ar safle'r asiantaeth yn Nhreforys. Bu'r asiantaeth yn rhagweithiol yn sicrhau bod llawer o'r llysiâu'r dail yn cael eu tynnu o'r safle gan ddefnyddio gweithdrefnau cymeradwy ac mae'n cael ei fonitro yn barhaus.

Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth bod llysiâu'r dail wedi ymsefydlu ar Dŷ Felin. Ond, mae'n amlwg bod bambŵ anhysbys yn ymledu o fusnes gerllaw ar y ffens ogledd-orllewin a bydd angen rhoi sylw i hwn.

Er mwyn cael gwared ar y rhywogaeth ymledol hon, dylid ystyried peidio â defnyddio plaleiddiaid/chwynladdwyr yn raddol. Mae defnyddio'r dulliau penodol yma yn gwneud difrod difrifol i'r amgylchedd ac yn creu risg i iechyd y rhai a all ddod i gyffyrddiad â nhw.

b) Gweithredu

- Monitro

Bydd yr asiantaeth yn parhau i fonitro am rywogaethau ymledol nad ydynt yn gynhenid a thrafod camau priodol pan fydd eu hangen ac os bydd eu hangen.



6.5. Dull holistaidd

a) Rhesymeg

Nid oes ffiniau i fyd natur. Boed yn fawr neu fân, mae pob rhywogaeth o anifail a phlanhigyn ym myd natur, gan gynnwys pobl, i gyd yn gysylltiedig ac yn y pen draw byddant ôll yn cael effaith ar ei gilydd.

Er enghraifft, petai pont yn cael ei chodi dros Fae Abertawe, byddai llawer o oblygiadau i'r ardal. Nid yn unig byddai'n effeithio ar y creigiau oherwydd y tyllu a'r drilio, ond byddai'r cynefinoedd o'i chwmpas hefyd yn dioddef. Byddai gwaddol yn cael ei adael mewn ardaloedd gwahanol gan y bydd cerrynt y llanw yn symud o gwmpas rhwystr nad oedd yno o'r blaen, gan effeithio, ymhlith pethau eraill, ar dymheredd, pH, dargludedd, y gallu i dramwyo a rhywogaethau ar y safle. Yn ychwanegol gall llygredd waethygu gyda'r cynnydd mewn trafndiaeth ar y môr yn ystod y gwaith adeiladu a cherbydau ffordd a phobl wedi hynny.

Felly, os byddai'r asiantaeth yn meddwl am yr amgylchedd a bioamrywiaeth mewn modd holistaidd, yna gall y ddealltwriaeth o'r ffactorau a all effeithio arnynt gynyddu, ac wedyn gall y pwysau ar y pynciau hyn lleihau.

b) Gweithredu

- Asesiad effaith amgylcheddol ac asesiad effaith ecolegol

Er mwyn helpu i liniaru effaith datblygiadau yn y dyfodol, bydd Asesiad Effaith Amgylcheddol neu Asesiad Effaith Ecolegol yn cael eu hymgorffori ym mholisi amgylcheddol yr asiantaeth. Wrth wneud hynny, bydd hyn yn helpu i ddadansoddi a yw ardal benodol o arwyddocâd i statws bioamrywiaeth yr asiantaeth, felly mae'r holl ystyriaethau yn cael eu hadolygu a chymau addas yn cael eu gweithredu.

- BS 8583, Bioamrywiaeth — Cyfarwyddyd i fusnesau ar reoli'r cyfleoedd a'r risgiau

Yn ddiweddar cyhoeddodd BSI safon newydd i helpu busnesau ddod yn fwy ymwybodol o sut y gall materion bioamrywiaeth effeithio ar eu heffaith amgylcheddol. Bydd hyn yn cael ei adolygu i sefydlu'r ffordd orau i gynnwys yr argymhellion.

6.6. Newid hinsawdd a pharatoi datblygiad

a) Rhesymeg

Mae newid hinsawdd yn ddigwyddiad naturiol ac mae'r Ddaear a'i thrigolion ar y cyfan wedi addasu i hynny. Ond, ers yr 1880au mae'r Ddaear yn gyffredinol wedi bod yn cynhesu yn barhaus a chredir bod hynny oherwydd bod dyn yn llosgi tanwydd ffosil.

Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn araf; gwelwyd ugain o'r blynyddoedd poethaf a gofnodwyd ers 1981, ac mae'r sefyllfa yn edrych fel petai am waethygu. Erbyn 2050(au) mae'n debygol y bydd y cymedr tymheredd dyddiol yn Abertawe yn codi o hyd at 3°C, gyda'r glawiad yn ystod yr haf yn debygol o ostwng o hyd at 20% yn y rhanbarth (Rhagamcanion Hinsawdd y Deyrnas Unedig, 2009).

Dan Ymrwymadau Llywodraeth Fwy Gwyrdd mae'n ofynnol i'r asiantaeth addasu'r ystad i hinsawdd sy'n newid a gyda dogfennau eraill y llywodraeth fel yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd sy'n nodi bod gan y newid yn yr hinsawdd y potensial i effeithio ar oriau staffio a dosbarthu cyflenwadau ynni, yn ogystal â photensial i effeithio ar iechyd staff a gostyngiad mewn lefelau dŵr, mae'n bwysig i'r asiantaeth baratoi ei safleoedd.

b) Gweithredu

- Fframwaith

Er mwyn paratoi bioamrywiaeth yr asiantaeth ar gyfer hinsawdd sy'n newid, bydd y DVLA yn creu fframwaith lle gall asesiadau a risgiau gael eu gwerthuso ac y gall camau gweithredu, dadansoddiadau ac adolygiadau gael eu cynnal.

Er enghraifft mae gan yr Asiantaeth Prifffyrdd Strategaeth a Fframwaith Addasu Newid Hinsawdd lle mae risgiau yn cael eu dynodi ac atebion posibl yn cael eu creu. Er bod yr Asiantaeth Brifffyrdd yn gyfrifol am rwydwaith ffyrdd Lloegr gyfan, gellid addasu asesiad llai ac mwy addas o effaith newid hinsawdd ar fioamrywiaeth yr asiantaeth ar gyfer yr DVLA. Wrth wneud hynny, mae'r asiantaeth yn gallu rheoli effeithiau hinsawdd sy'n newid ar fioamrywiaeth yn systematig.

Yn yr un modd mae cyfle hefyd yma i ystyried sut yr ydym yn defnyddio bioamrywiaeth i helpu'r asiantaeth ddod yn fwy gwydn i effeithiau newid hinsawdd.

Atodiadau



Atodiad 1 – Manylion a mapiau nodyn targed

Map ddim ar gael
ar hyn o bryd













Map 5 - Cynefinodd Treforys





Map ddim ar gael ar
hyn o bryd

Tabl 1 – Allwedd lliwiau’r map

| Lliw | Allwedd |
|--|---|
|  | J1.2 – Glaswelltir amwynder |
|  | Cynefin mosaig agored |
|  | J1.4 – Llwyn a gyflwynwyd |
